OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 376 (Cy. 117)

# YMADAEL Â’R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU
# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *22 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *24 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *30 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau’r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw’r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) (Diwygio) 2021.

(2) Daw’r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Mawrth 2021.

**Diwygio Rheoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2021**

**2.** Yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â’r UE) 2021(**2**), yn lle “31 Mawrth 2021” rhodder “30 Medi 2021”.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

22 Mawrth 2021

(**1**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1639 (Cy. 344). Mewnosodir paragraff 11A o Atodlen 2 gan reoliad 2(2) o O.S. 2020/1639 (Cy. 344). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.
(**2**) O.S. 2021/1 (Cy.1).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gwneir y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan baragraff 11A(1) o Atodlen 2 i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252).

Mae Rheoliad 2 yn diwygio'r dyddiad yn rheoliad 3(1) o Reoliadau Paratoadau Cig (Diwygio ac Addasiadau Darfodol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 (O.S. 2021/1 (Cy. 1)) er mwyn ymestyn effaith y Rheoliadau hynny, sydd, mewn perthynas â mewnforion sy'n tarddu o, neu a gynhyrchir mewn sefydliadau a leolir yn Aelod-wladwriaethau'r AEE, Ynysoedd Ffaröe, Kalaallit Nunaat (Greenland) neu'r Swistir, yn atal dros dro y gofyniad i baratoadau cig a fewnforir i Gymru fod wedi'u rhewi'n ddwfn. Gosodir y gofyniad hwnnw gan Erthygl 3(3) o Benderfyniad y Comisiwn 2000/572/EC sy'n gosod yr amodau iechyd anifeiliaid a'r cyhoedd ac ardystio milfeddygol ar gyfer mewnforio paratoadau cig i'r Gymuned o drydydd gwledydd (EUDN 2000/572). Ymestynnir yr ataliad dros dro hyd hanner nos ar 30 Medi 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.